

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cyfrifon cyngorau yng Nghymru: eich hawliau

# Gwybodaeth am hawliau i archwilio, cwestiynu a gwrthwynebu cyfrifon eich cyngor

Mae'r daflen hon yn esbonio'ch hawliau i archwilio cyfrifon cyngor neu gorff llywodraeth leol arall<sup>1</sup>.

Mae hefyd yn egluro'r hawl i ofyn cwestiynau i'r Archwilydd Cyffredinol<sup>2</sup> am gyfrifon cyngor, a'r hawl i wrthwynebu i eitemau cyfrifon a materion archwilio eraill. Mae'r hawliau hyn yn rhan o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004<sup>3</sup>, ac yn ychwanegol at yr hawliau i geisio gwybodaeth dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a deddfwriaeth.

Nid esboniad cynhwysfawr o'r gyfraith yw'r daflen hon, na chyngor cyfreithiol chwaith. Os ydych chi angen cyngor am yr hawliau a amlinellir yma, dylech ystyried holi cynghorydd cyfreithiol cymwysedig.

Yn y daflen hon, mae unrhyw gyfeiriad at 'archwilydd' yn cyfeirio at yr Archwilydd Cyffredinol, aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru sy'n gweithio ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, neu, os yw'n berthnasol, yr archwilydd perthnasol benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol.

I wybod sut i gysylltu â'r archwilydd, ffoniwch Swyddfa Archwilio Cymru ar 029 2032 0500 neu e-bostiwch [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)

- 1 Mae cyrff llywodraeth leol yn cynnwys cyngorau sir, cyngorau bwrdeistref sirol, awdurdodau'r parciau cenedlaethol, comisiynwyr yr heddlu a throsedd, awdurdodau tân ac achub, a chynghorau cymuned. Gweler adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 am restr lawn o'r cyrff cysylltiedig. Dim ond cyfeirio at gyngorau mae'r daflen hon, er crynoder. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn diffinio "cyrff perthnasol mwy" a "cyrff perthnasol llai" ac mae ganddynt wahanol ddarpariaethau mewn perthynas â hawliau etholwyr. Mae cyngorau yn "gyrff perthnasol mwy" ac, oni bai y nodwyd fel arall, mae'r hawliau a nodwyd yn y daflen hon yn berthnasol i gyrff perthnasol mwy.
- 2 Neu, os yw'n berthnasol, yr archwilydd a benodir gan yr Archwilydd Cyffredinol. Yr Archwilydd Cyffredinol fu'n gyfrifol am benodi archwilwyr i archwilio cyfrifon cyngorau tan 1 Ebrill 2014. Mae deddfwriaeth newydd wedi disodli'r pŵer i benodi archwilwyr â dylatswydd ar yr Archwilydd Cyffredinol i archwilio cyngorau, ond o dan ddarpariaethau pontio, mae apwyntiadau cyfredol yn parhau'n ddilys hyd nes y dânt i ben.
- 3 Gyda rhywfaint o fanylion pellach yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

# Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio'r rhan fwyaf o gyrrf sector cyhoeddus Cymru.

Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru a chwmnïau cyfrifwyr preifat yn cefnogi gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Mae archwiliadau, asesiadau ar arolygiadau'r Archwilydd Cyffredinol yn darparu:

- adroddiadau ar gyfrifon blynyddol y cynghorau;
- adroddiadau ar y ffaith a yw cynghorau a chyrrf cyhoeddus eraill Cymru yn darparu gwerth da am arian;
- adborth i gynghorau er mwyn eu helpu i wella; a
- gwybodaeth i rai sy'n gyfrifol am graffu ar bolisiau, ac i rai sy'n llunio polisiau, defnyddwyr gwasanaethau a threthdalwyr.

## Materion gyda chynghorau

Tra bo'r daflen hon yn crynhoi'r hawl i archwilio cynghorau, cwestiynu'r archwilydd a chyflwyno gwrthwynebiadau, mae'n werth nodi bod sawl ffordd wahanol o drafod materion neu broblemau gyda chyngor, ac mewn llawer o amgylchiadau, bydd y rhain yn fwy addas na arfer hawliau'n gysylltiedig â chyfrifon.

Os ydych chi'n credu bod rhywbeth wedi mynd o'i le yn eich cyngor lleol, y peth gorau fel arfer yw cysylltu'n uniongyrchol â'ch cyngor. Mae gan y rhan fwyaf o gynghorau eu system gwynion eu hunain, a dylai'r manylion fod ar gael ar wefan y cyngor, yn ogystal ag yn llyfrgelloedd a swyddfeydd y cyngor. Gallech hefyd gysylltu ag un o'ch cynghorwyr lleol chi (mae gan sawl ward fwy nag un cynghorydd).

Weithiau, bydd angen i rywun arall fynd i'r afael â phroblemau. Os credwch fod eich cyngor wedi gwneud rhywbeth o'i le, bydd yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymchwilio i'r mater. Os credwch fod ymddygiad aelod o'r cyngor yn is na'r safonau y disgwylir i weision cyhoeddus eu cyrraedd, dylech gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Os ydych chi'n amau achos o dwyll neu ddefnydd amhriodol o arian y cyngor, dylech gysylltu ag archwilydd mewnol y cyngor neu'r heddlu.

# Crynodeb o hawliau

Mae'r wybodaeth ganlynol yn crynhoi'r hawl i archwilio cyfrifon cyngor, gofyn cwestiynau i'r archwilydd am gyfrifon cyngor, a chyflwyno gwrthwynebiadau yn ymwneud â'r cyfrifon. Mae'r hawliau hyn wedi'u cyflwyno yn adrannau 29 i 32 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac mae cyfreithiau perthnasol eraill i'w gweld yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

## Hawliau i archwilio a gwneud copïau o gyfrifon ac adroddiadau'r archwilydd

Rhaid i gyngor gyhoeddi ei gyfrifon am y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth (sydd newydd fod) ac unrhyw adroddiad ar y datganiad o gyfrifon gan yr archwilydd<sup>4</sup>, erbyn 30 Medi. Os ydych chi'n etholwr (ar gofrestr yr etholwyr) yn ardal y cyngor, gallech, ar unrhyw adeg resymol, fwrw golwg dros y dogfennau hyn, ac unrhyw adroddiad arall a gyflwynwyd i'r corff gan yr Archwilydd Cyffredinol, a gwneud copïau am ddim. Gallwch hefyd ofyn am gael y dogfennau wedi'u hanfon atoch, er y gallai'r cyngor godi tâl am y copïau y bydd yn eu hanfon. Mae'n drosedd i unrhyw un atal yr hawliau archwilio hyn neu fethu â darparu unrhyw gopïau y gofynnwyd amdanynt.

## Archwilio dogfen yn ystod archwiliad

Bydd yr archwilydd yn nodi dyddiad lle bydd hawliau etholwyr i ofyn cwestiynau mewn archwiliad neu i gyflwyno gwrthwynebiad mewn archwiliad yn dod i rym. Mae gan unigolyn â buddiant<sup>5</sup> 20 diwrnod gwaith cyn y diwrnod hwnnw i weld y cyfrifon sydd i'w harchwilio a'r dogfennau ategol.

O leiaf 14 diwrnod cyn dechrau'r cyfnod o 20 diwrnod gwaith, rhaid i gyngor hysbysebu'r ffaith fod cyfrifon ar gael i'w harchwilio, a'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau sy'n gysylltiedig â nhw. Mae'n rhaid rhoi'r hysbyseb hon ar wefan y cyngor hefyd. Rhaid i rai cyrff llywodraeth leol llai gyhoeddi hyn trwy osod hysbyseb mewn lle cyhoeddus, yn hytrach na rhoi hysbyseb mewn papur newydd ac ar ei wefan<sup>6</sup>. Rhaid i'r hysbyseb neu'r hysbysiad hefyd nodi enw a chyfeiriad archwilydd y cyngor, a'r dyddiadau, yr amseroedd a'r llefydd y gall pobl â diddordeb weld a chopio'r dogfennau, neu, yn achos rhai cyrff llywodraeth leol llai, manylion am sut i drefnu archwiliad.

4 Oni bai bod y cyfrifon wedi'u cyhoeddi cyn cwblhau'r archwiliad. Mae'n rhaid cyhoeddi unrhyw hysbysiadau cyngori o dan adran 33 Deddf 2004 hefyd.

5 Mae cyfraith achos yn dangos bod unrhyw un sydd â buddiannau ariannol neu gyfreithiol mewn cyngor, fel etholwr neu drethdalwr, yn unigolyn â buddiant.

6 Bydd maint incwm neu wariant gros corff llywodraeth leol yn penderfynu a ddylai ddangos hysbysiad mewn man cyhoeddus neu roi hysbyseb mewn papur newydd, ac ar ei wefan.





Mae'n syniad da trefnu apwyntiad gyda'r cyngor ar gyfer unrhyw archwiliad, ac i rai cyrff llywodraeth leol llai, mae angen rhoi 'rhybudd rhesymol' (hy gwneud apwyntiad ar amser realistig).

Nid yw'r hawl i archwilio dogfennau dan Ddeddf 2004 yn ymestyn i ddogfennau nad ydynt yn berthnasol i'r cyfrifon. Nid yw chwaith yn berthnasol i wybodaeth yn ymwneud â swydd yr unigolyn, neu ei gyflogaeth neu daliadau neu fuddion perthnasol eraill.

### **Cwestiynau yn ystod archwiliad**

Rhaid i hysbyseb neu hysbysiad y cyngor sy'n dweud bod cyfrifon ar gael i'w harchwilio hefyd nodi pryd y gall etholwyr neu eu cynrychiolwyr ofyn cwestiynau i'r archwilydd am y cyfrifon dan sylw.

Rhaid i gwestiynau fod yn ymwneud â'r cyfrifon am flwyddyn yr archwiliad; ni allwch ofyn cwestiwn am gyfrifon unrhyw flwyddyn arall. Mater i'r archwilydd yw ateb cwestiynau ai peidio, ac nid yw'r hawl i ofyn cwestiynau yn cynnwys rhai nad ydynt yn berthnasol i'r cyfrifon, fel cwestiynau cyffredinol am bolisiau'r cyngor. Wrth ateb cwestiwn, does dim rhaid i'r archwilydd ddweud a yw'n credu bod y cyngor wedi gwneud rhywbeth anghyfreithlon, neu os yw eitem yn y cyfrifon yn anghyfreithlon.

Cyn i chi ofyn unrhyw gwestiynau i'r archwilydd, dylech archwilio'r cyfrifon fel eich bod yn gwybod beth sydd ynddynt. Y nod yw rhoi cyfle i etholwyr a'u cynrychiolwyr glirio unrhyw amheuan a chamddealltwriaeth yn ymwneud â'r cyfrifon.

Os byddwch yn gofyn cwestiynau nad ydynt yn ymwneud a'r cyfrifon, efallai y bydd yr archwilydd yn awgrymu eich bod yn gofyn i'r cyngor am y wybodaeth. Nid rôl yr archwilydd yw gweithredu fel cyfrwng i chi ofyn cwestiynau i'r cyngor a chael ymateb ganddo.

## Yr hawl i fynegi gwrthwynebiad mewn archwiliad

Os ydych chi'n un o etholwyr y cyngor, neu'n gynrychiolydd awdurdodedig rhywun sy'n etholwr, gallwch gyflwyno gwrthwynebiad gerbron yr archwilydd ar y sail:

- a** bod un o eitemau'r cyfrifon yn anghyfreithlon; a/neu
- b** bod rhywbeth yn y cyfrifon y dylai'r archwilydd hysbysu'r cyhoedd amdano mewn 'adroddiad lles y cyhoedd'.

Mae eitem yn y cyfrifon yn anghyfreithlon os yw'n cofnodi, er enghraifft:

- gwariant, buddsoddiad neu incwm nad oedd gan y cyngor unrhyw hawl i'w gweithredu, er enghraifft lle gwariodd y cyngor arian ar rywbeth nad oedd ganddo'r grym na'r ddyletswydd i'w wneud;
- gwariant heb ganiatâd dyledus;
- gwariant neu incwm yn sgil penderfyniad anghyfreithlon, fel achos lle byddai cynghorwyr a wnaeth y penderfyniad yn y lle cyntaf debygol o elwa'n uniongyrchol arno;
- gwariant at ddiben cyfreithiol, ond ar lefel mor uchel nes ei fod yn anghyfreithlon oherwydd afresymoldeb; neu
- wariant neu incwm a dynnwyd o'r gronfa neu'r cyfrif anghywir, neu a ychwanegwyd iddynt.

Os bydd archwilydd o'r farn bod eitem yn anghyfreithlon, gall wneud cais i'r llys i gadarnhau bod yr eitem yn y cyfrifon yn anghyfreithlon. Os bydd y llys yn cytuno, gall orchymyn bod y cyfrifon yn cael eu hunioni. Wrth benderfynu a ddylai wneud cais i'r llys, bydd yr archwilydd yn ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys y gost.

Ni allwch wneud gwrthwynebiad dilys am unrhyw reswm arall ar wahân i'r un a nodir yn (a) a (b) uchod. Hefyd, mae'n rhaid cyflwyno gwrthwynebiad dilys ar y dyddiad neu ar ôl y dyddiad a nodwyd gan yr archwilydd fel y dyddiad lle mae'r hawliau i ofyn cwestiynau mewn archwiliad a chyflwyno gwrthwynebiad mewn archwiliad yn dod i rym, ac mae'n rhaid iddo ymwneud â'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn sy'n cael ei harchwilio. Pan fyddwch yn ystyried p'un a ddylid gwrthwynebu ai peidio, cofiwch fod gan gynghorau'r pŵer i benderfynu ar yr hyn sydd orau yn eu barn hwy. Nid yw'r ffaith eich bod yn anghytuno'n gryf â rhywbeth y mae'r cyngor wedi'i wneud yn rheswm dilys dros wrthwynebu.

Os bydd etholwr, neu ei gynrychiolydd, yn dymuno cyflwyno gwrthwynebiad, rhaid iddynt ysgrifennu at yr archwilydd i hysbysu'r gwrthwynebiad arfaethedig. Rhaid i'r hysbysiad o'r fath ddweud wrth yr archwilydd beth yw sail y gwrthwynebiad. Dylai'r hysbysiad gynnwys, cyhyd ag y bo modd, fanylion am unrhyw eitem yn y cyfrif yr honnir ei bod yn torri'r gyfraith, a/ neu fanylion am unrhyw fater y gallai'r archwilydd lunio adroddiad er lles y cyhoedd. Rhaid i'r etholwr neu ei gynrychiolydd anfon copi o'r hysbysiad i'r cyngor ar yr un pryd ag y bydd yn anfon copi i'r archwilydd. Y ffordd fwyaf priodol fel arfer yw anfon copi o'r hysbysiad at sylw'r Prif Weithredwr, neu'r Clerc yn achos cyngor cymuned.

Rhaid i'r archwilydd ddod i benderfyniad am unrhyw wrthwynebiad. Os nad yw'r archwilydd yn penderfynu ceisio datganiad gan y llysoedd ar ôl derbyn gwrthwynebiad bod eitem yn y cyfrifon yn anghyfreithlon, a bod y gwrthwynebiad hwnnw wedi'i wneud yn unol â'r ddeddfwriaeth, yna gall yr etholwr neu ei gynrychiolydd ofyn i'r archwilydd gyflwyno datganiad o resymau dros y penderfyniad hwnnw o fewn 14 diwrnod o dderbyn y penderfyniad hwnnw. Os nad yw'r etholwr neu ei gynrychiolydd yn fodlon gyda'r penderfyniad, gall apelio i'r llys o fewn 28 diwrnod i dderbyn y datganiad o resymau.

Os yw'r gwrthwynebiad yn gysylltiedig â mater sy'n berthnasol i'r archwiliad, yna mae gan yr archwilydd y pŵer i ddweud wrth y cyhoedd amdano mewn adroddiad er lles y cyhoedd, ac eto, rhaid i'r archwilydd benderfynu gweithredu ai peidio. Fel rheol, bydd yr archwilydd yn rhoi rhesymau am ei benderfyniad, er nad oes rhaid iddo wneud hynny, a does dim hawlio apelio i'r llysoedd yn erbyn penderfyniad o'r fath dan Ddeddf 2004.

## Beth arall gallwch chi ei wneud


Gallwch roi gwybodaeth i'r archwilydd sy'n berthnasol i'w gyfrifoldebau ar unrhyw adeg. Er enghraifft, gallwch ddweud wrtho os ydych chi'n credu bod rhywbeth o'i le ar y cyfrifon neu broblem o ran gwastraff ac aneffeithlonrwydd yn y modd y mae'r cyngor yn rhedeg ei wasanaethau. Does dim rhaid i chi ddilyn unrhyw derfynau amser neu weithdrefnau wrth rannu gwybodaeth o'r fath. Bydd yr archwilydd yn dweud wrthyhch beth yw canlyniad cyffredinol unrhyw waith a wnaed mewn ymateb i'r wybodaeth a ddarparwyd, ac yn ceisio rhoi ateb defnyddiol i chi, ond does dim dyletswydd statudol i wneud hyn wrth ateb neu adrodd i lythyrau a gohebiaethau eraill. Am ragor o wybodaeth darllenwch y daflen *Writing to the Auditor General for Wales or the Wales Audit Office – A guide for correspondents* ar ein gwefan.

## Costau

Rhaid i gynghorau, ac felly trethdalwyr lleol, dalu'r gost o ymdrin â chwestiynau a gwrthwynebiadau. Bydd archwilwyr yn derbyn gwrthwynebiadau dilys ac yn ystyried ffactorau amrywiol wrth benderfynu sut i ymdrin â nhw. Rhaid iddynt ystyried y costau dan sylw. Byddant ond yn parhau i ymdrin â gwrthwynebiad os yw hynny'n rhesymol yn eu barn nhw. Os byddwch chi'n apelio i'r llysoedd, efallai mai chi'ch hun fydd yn gorfod talu am hynny.







## Addasiadau rhesymol yn achos nam (anabledd)

Rydym yn annog pobl â nam (anabledd) sudd angen addasiadau rhesymol i ddweud wrthym beth ydynt. Gall addasiad rhesymol olygu, er enghraifft, darparu gwybodaeth mewn ffont mwy neu ar ffurf sain er mwyn mynd i'r afael â nam ar y golwg. Byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth ar gais.

# Manylion cyswllt defnyddiol

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ  
Ffon: 029 2032 0500  
E-bost: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)  
Ffacs: 029 2032 0600  
[www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)

Ombwdsmon Gwasanaethau  
Cyhoeddus Cymru  
1 Ffordd yr Hen Gae  
Pen-coed  
CF35 5LJ  
Ffon: 0300 790 0203  
E-bost: [ask@ombudsman-wales.org.uk](mailto:ask@ombudsman-wales.org.uk)  
Ffacs: 01656 641199  
[www.ombudsman-wales.org.uk](http://www.ombudsman-wales.org.uk)

The Information Commissioner's Office  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF  
Ffon: 01625 545745  
Ffacs: 01625 524510  
[www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, ac fe wnawn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

